



LLAIS

Yn Cyflwyno

**PLEIDLAI
DYFODOL**

**Dysgu Bywyd
Go Iawn**

**Cyngor
Ieuenctid
Sir Gâr**
Carmarthenshire
Youth Council

Croeso i ein Zine

Pam mae'r prosiect hwn yn bwysig

Mae'r Zine hwn yn grynodedb o brosiect Ein Llais, Ein Pleidlais, Ein Dyfodol

Mae 'Ein Llais, Ein Pleidlais, Ein Dyfodol' yn ymgynghoriad ieuenctid sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc 11-18 oed ledled Sir Gaerfyrddin, ddweud eu dweud ar yr hyn sy'n bwysig iddynt

Yn ystod y 18 mis diwethaf, fe wnaethom gynnal ymchwil, arolygon, cynnal grwpiau ffocws, cynnal pleidleisiau a threfnu digwyddiadau i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc Sir Gaerfyrddin.

Ein nod? Sicrhau bod ein lleisiau yn siapio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar ein bywydau..



Ein Llais; Dysgu Bywyd go iawn

Llinell amser

Hydref 2023

Ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno dau destun sydd o bwys i'w myfyrwyr

Ionawr 2024

Pleidlais yn agor

Ebrill 2024

Pwnc #1 yn cael ei gyhoeddi yng Nghyfarfod Blynnyddol Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin

Gorffennaf 2024

Cyfarfod 2 - cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu

Chwefror 2025

Ein Llais; cyfarfod Dysgu Bywyd Go iawn

Mehafin 2025

Adroddiad prosiect yng nghyfarfod prifathrawon

Tachwedd 2023

Cynrychiolwyr ysgol yn dadlau y syniadau; pleidlais wedyn ar y 10 testun mwyaf pwysig

Chwefror 2024

Pleidlais yn cau

Ebrill 2024

Cyfarfod UN - cynllun yr ymgyrch

Awst 2024

Gwersyll Haf - cynllunio'r prosiect

Mawrth 2025

Gorffen adroddiad prosiect

Beth ddywedodd Pobl Ifanc wrthym Pleidlais Ein Llais, Ein Pleidlais, Ein Dyfodol

Datgelodd pleidlais 'Ein Llais, Ein Pleidlais, Ein Dyfodol' yn 2025, allan o'r 5221 o bleidleisiau a gasglwyd, mai 'Addysgu gwersi bywyd go iawn mewn ysgolion' oedd y brif flaenoriaeth i bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin. Mewn ymateb, fe wnaethom greu'r digwyddiad 'Ein Llais: Dysgu am Oes'.



Digwyddiad Ein Llais: Dysgu Bywyd Go iawn

Roedd y diwrnod yn llawn cyfleoedd i ddysgu, rhannu a chysylltu. Fe wnaethom wahodd ysgolion i ddangos sut maen nhw'n defnyddio'r cwricwlwm i ddysgu gwersi ymarferol, bywyd go iawn. Cafodd y mynychwyr gyfle i drafod y dulliau hyn a chyfnewid syniadau. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys stondinau a gweithdai a gynhaliwyd gan wasanaethau cyhoeddus fel Cadetiaid y Fyddin, WCMC, Llwybrau Gyrfaedd.... a sefydliadau eraill sy'n cynnig profiad rhyngweithiol ac ymarferol. Daeth y digwyddiad 'Ein Llais: Dysgu am Oes' â phobl ifanc o wyth ysgol uwchradd ledled Sir Gaerfyrddin at ei gilydd. Fe wnaethant gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd i gasglu eu hadborth ar eu profiadau sut mae gwersi bywyd go iawn yn cael eu dysgu mewn ysgolion.



Pa wersi bywyd rydw i wedi'u dysgu yn yr ysgol?

Fe wnaethon ni ofyn i bobl ifanc roi adborth i ni ar ba wersi bywyd maen nhw wedi'u dysgu yn yr ysgol.

Iechyd a Lles

Maeth, hunan-ofal, rheoli straen/amser, amynedd, aros yn dawel dan bwysau.

Twf Personol

Hunan-reoleiddio, hyder, dyfalbarhad, addasrwydd, dewrder, a chamu allan o'r parth cysur.

Meddwl a Dysgu

Creadigrwydd, hunan-fynegiant, datrys problemau, derbyn camgymeriadau, chwilfrydedd.

Sgiliau Cymdeithasol ac Emosiynol

Cyfathrebu, gwaith tîm, caredigrwydd, gonestrwydd, parch, amrywiaeth, a meithrin perthnasoedd.

Sgiliau Bywyd Ymarferol

Cymorth cyntaf, rheoli arian, defnyddio technoleg, siarad cyhoeddus, diogelwch tân, gwnïo, ailgylchu, a rhaglennu.

"Rwy'n awr yn gwybod sut i goginio pryd cytbwys."

"Dysgais am ailgylchu a sut i gadw ein planed yn ddiogel!"

"Dysgais sut i drwsio fy nillad fy hun drwy wau."

"Dysgais am faterion ariannol ar gyfer pan fydda i'n gadel yr ysgol."


"Cefais fy nysgu sut i ymdopi a'm hemosiynau pan fyddan nhw'n mynd yn ormod."




Canlyniadau graddfa hyder

Gofynnwyd i'r bobl ifanc leoli eu hunain ar raddfa hyder yn seiliedig ar sut maen nhw'n teimlo am eu profiadau dysgu bywyd go iawn a addysgir yn eu lleoliad addysgol.


Pa mor hyderus wyt ti bod dy addysg yn dy baratoi ar gyfer heriau bywyd go iawn?




Pa mor hyderus wyt ti bod dy addysg yn dy baratoi ar gyfer yr oes ddigidol a dyfodol gwaith?




Pa mor hyderus wyt ti bod addysg yn dy baratoi ar gyfer heriau emosiynol a chymdeithasol oedolion?"



Pa mor hyderus wyt ti'n cael dy addysgu am wydnwch a sut i ymdopi â methiant?





Casgliad

Casglodd Our Voice: Learn Real Life ganfyddiadau gwerthfawr ar bwysigrwydd gwersi bywyd go iawn, trwy arddangos beth mae ysgolion yn ei gwmpasu a meysydd gwella.

Mae'r data a gasglwyd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu dysgu sgiliau bywyd fel maeth, hunanreoleiddio, hyder, hunanfynegiant, amrywiaeth, cymorth cyntaf ac adeiladu perthnasoedd cadarnhaol mewn ysgolion.

Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn dangos bod angen pwysleisio ymhellach ar rai meysydd fel sgiliau digidol mewn gwaith yn y dyfodol, heriau cymdeithasol ac emosiynol a delio â methiant.



Cydnabyddiaethau

Ar ran Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, hoffem estyn ein diolch diffuant i Wasanaeth Cymorth Ieuenctid Sir Gaerfyrddin am ariannu'r prosiect hwn yn hael drwy'r Gronfa Ffyniant a Rennir. Mae eich cefnogaeth wedi bod yn allweddol wrth wneud y fenter hon yn bosibl.

Hoffem hefyd ddiolch i'r ysgolion a'r sefydliadau a fynychodd ac a gefnogodd y digwyddiad Ein Llais; Dysgu Bywyd Go Iawn. Gwerthfawrogrir eich ymgysylltiad a'ch ymrwymiad yn fawr, ac mae eich cyfraniadau wedi chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y digwyddiad.

